


Cydweithio Rhwng y Gwasanaethau Brys

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ionawr 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Cefndir	4
Adroddiad cryno	4
Canfyddiadau allweddol	5
Ffeithiau allweddol	8
Argymhellion	9
1 Mae disgwyl i wasanaethau brys gydweithio i wneud defnydd gwell o adnoddau	12
2 Pa mor dda y mae'r gwasanaethau brys yn cydweithio ar hyn o bryd	18
3 Sut y mae'r gwasanaethau brys yn bwriadu cydweithio yn y dyfodol	31

Atodiadau

1 Dulliau ac ymagwedd archwilio	46
2 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac ymateb i drychinebau yng Nghymru	48
3 Enghreifftiau o gydweithio rhwng gwasanaethau ac ymatebwyr brys yng ngwledydd eraill Prydain Fawr	50
4 Nodweddion cadarnhaol gwasanaethau brys sy'n cydweithio'n effeithiol	54



Adroddiad cryno

Cefndir

- Mae'r gwasanaethau brys 'golau glas'¹ yng Nghymru'n cynnwys y pedwar gwasanaeth heddlu, y tri gwasanaeth tân ac achub ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (**Arddangosyn 1**). Llywodraeth Cymru sy'n goruchwyllo'r gwasanaethau tân ac achub ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, a Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU sy'n goruchwyllo'r Pedwar heddlu. Pan ydym yn cyfeirio yn yr Adroddiad hwn at y 'gwasanaethau brys', yr wyth sefydliad yma a olygwn.

Arddangosyn 1: wyth sefydliad y gwasanaethau brys 'golau glas' yng Nghymru

Heddlu	Tân ac Achub	Ambiwllans
Heddlu Dyfed Powys	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Heddlu Gwent	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Heddlu Gogledd Cymru	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	
Heddlu De Cymru	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

¹ Mae 'golau glas' yn derm poblogaidd ar gyfer gwasanaethau y caniateir iddynt, yn achos argyfwng, droi goleuadau glas sy'n fflachio ymlaen sy'n dynodi eu bod yn cael blaenoriaeth mewn traffig dros fodurwyr eraill.

- 2 Yn ychwanegol at y gwasanaethau 'golau glas', caiff ystod o sefydliadau eraill eu hystyried yn 'ymatebwyr brys'; sefydliadau â gwybodaeth a sgiliau arbenigol sy'n gweithredu mewn argyfwng. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau chwilio ac achub², [Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub](#), [Gwylwyr Glannau Ei Mawrhydi](#), timau cynllunio at argyfwng awdurdodau lleol a chyrrff yn y sector gwirfoddol megis [Ambiwlans Sant Ioan yng Nghymru](#) a'r [Groes Goch Brydeinig](#).
- 3 Gall manteision posibl cydweithio rhwng y gwasanaethau brys a threfniadau i integreiddio'r gwasanaethau hynny gael eu rhannu'n fras i ddau faes allweddol:
 - yn gyntaf, cydweithio i sicrhau bod gwasanaethau brys yn cynllunio ar gyfer argyfyngau a thrychinebau ac yn ymateb yn effeithiol iddynt wrth gyflawni eu cyfrifoldebau dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (**Atodiad 2**); ac
 - yn ail, cydweithio ac integreiddio gwasanaethau brys trwy gael gwared ar achosion o ddyblygu ymdrech wrth ddylunio, comisiynu, gweithredu a chyflawni gweithgarwch sy'n helpu cyrrff i wneud defnydd gwell o adnoddau a darparu gwasanaethau di-dor.
- 4 Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar yr ail o'r ddau faes gwaith yma, gan archwilio pa un a yw'r gwasanaethau brys yng Nghymru'n cydweithio'n agosach i ddefnyddio adnoddau'n well. Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o fanylion am ein hymagwedd a'n dulliau archwilio.
- 5 Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol a fu ar y gwasanaethau brys o ran ymateb i'r pandemig dros y 18 mis diwethaf. Mae COVID-19 wedi creu galwadau enfawr ar weithwyr rheng-flaen sydd wedi gorfod ymateb yn greadigol a thros gyfnodau maith i gadw pobl yng Nghymru'n ddiogel ac iach.

Canfyddiadau allweddol

- 6 Ein casgliad ar y cyfan yw bod cydweithio rhwng gwasanaethau brys golau glas yn tyfu'n raddol ond bod angen newid sylweddol mewn gweithgarwch i gynyddu'r effaith i'r eithaf a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- 7 Nid yw cydweithio ar draws y gwasanaethau brys i wneud y defnydd gorau o adnoddau'n gysyniad newydd. Mae gwasanaethau brys wedi bod yn cydweithio'n agos i ddarparu gwasanaeth gwell ar gyfer y cyhoedd am flynyddoedd lawer. Mae mentrau partneriaeth arloesol wedi arbed arian, wedi lleihau amseroedd ymateb lleol ac wedi cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd.

2 Er enghraifft, [Tîm Achub Mynydd y Bannau Canolog](#) a [Chymdeithas Achub Mynydd Gogledd Cymru](#).

- 8 Er gwaethaf hyn, ceir disgwyliadau cynyddol ym mholisi'r llywodraeth ac mewn deddfwriaeth bod angen i gydweithio ddigwydd yn ddyfnach ac yn gyflymach i sicrhau bod gwasanaethau rheng-flaen yn gallu ymateb i'r heriau sy'n wynebu Cymru yn yr 21ain ganrif. Er bod ardaloedd lle nad oes angen i wasanaethau gydweithio gyda'i gilydd, gall gwahanol linellau atebolrwydd a materion ymarferol eraill ddylanwadu ar hyd a lled a chyflymder cydweithio hefyd.
- 9 Mae'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys, sy'n dwyn ynghyd uwch arweinwyr o wasanaethau 'golau glas', yn arwain ar yr agenda cydweithio. Er y cydnabyddir bod cydweithio'n well yn hanfodol, nid yw integreiddio gwasanaethau'n llawn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd.
- 10 Mewn meysydd allweddol – megis ystadau a chydleoli gwasanaethau, rheoli fflyd a'r gweithlu – ceir enghreifftiau lle mae gweithgarwch cydweithredol yn digwydd, ond lle mae graddfa'r gweithgarwch ar y cyfan wedi bod yn gyfyngedig. Hefyd, er bod gwasanaethau brys yn rhannu ac yn defnyddio data'n effeithiol i wella amseroedd ymateb a'r defnydd o gerbydau, nid oes ganddynt ddull effeithiol o reoli pobl agored i niwed.
- 11 Mae'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys wedi sefydlu Bwrdd Cydweithio Strategol i adnabod a chyflawni cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol, gan roi arwydd clir bod angen newid sylweddol. Mae cynlluniau ar gyfer cydweithio'n datblygu ond mae rhai o'r rhain yn gyfyngedig o ran eu cwmpas ac nid ydynt yn cael eu hategu gan drefniadau cyson i reoli prosiectau. Nid oes blaenoriaethau clir wedi cael eu hadnabod eto ac nid yw gwaith prosiect wedi cael ei gostio'n llawn eto. Hefyd, nid yw'r Cyd-grŵp wedi cytuno eto sut y bydd yn barnu'r effaith a'r gwerth am arian sy'n deillio o gydweithio.
- 12 Wrth i drefniadau'r Bwrdd Cydweithio Strategol ddatblygu, mae cyfleoedd i ddysgu o rai o'r ffactorau hollbwysig sy'n ategu enghreifftiau o gydweithio rhwng y gwasanaethau brys mewn gwledydd eraill ym Mhrydain Fawr. Serch hynny, nid yw gwasanaethau integredig yn gyffredin mewn gwledydd eraill ac nid ymddengys fod unrhyw fwrdd cydweithio 'golau glas' wedi datrys cyfrinach cydweithio'n llawn.



Mae gan y gwasanaethau brys hanes hir o gydweithio ac maent yn parhau i helpu i gadw pobl yng Nghymru'n ddiogel. Mae eu mentrau partneriaeth arloesol wedi helpu i arbed arian, wedi lleihau amseroedd ymateb lleol, ac wedi cyfrannu at amddiffyn y cyhoedd. Er gwaethaf hyn, mae disgwyliadau cynyddol polisi cyhoeddus a deddfwriaeth yn golygu bod angen iddynt gydweithio'n fwy byth i wneud gwell defnydd o'u hadnoddau a mynd ati go iawn i gynyddu eu heffaith i'r eithaf.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru



Ffeithiau allweddol

- 13 Mae'r ffeithlun isod yn crynhoi ffeithiau allweddol o'n hadroddiad ac offeryn data ategol ynglŷn â gwasanaethau brys yng Nghymru.

Mae'r gyllideb i redeg y gwasanaethau brys yng Nghymru'n fwy nag **£1 biliwn yn flynyddol**.

Roedd gan y gwasanaethau brys yng Nghymru **£151 miliwn** mewn cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd mis Mawrth 2021.

Yn 2020-21, roedd yr heddlu'n cyflogi **13,147 o bobl**, roedd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru'n cyflogi 3,274 ac roedd y gwasanaethau tân ac achub yn cyflogi 3,969.

Mae gwasanaethau brys ac ymatebwyr brys yng Nghymru'n gweithredu o 684 o adeiladau gwahanol.

O'r nifer hwn:

mae 47 (7%) wedi'u cydleoli – lle mae dau sefydliad neu fwy'n rhannu cyfleusterau.

mae 541 (79%) yn orsafoedd, y mae sefydliad yn cychwyn ohono i ymateb i ddigwyddiad.

Yn 2020-21, fe wariodd y gwasanaethau brys **£71 miliwn** yn gwella asedau ac yn uwchraddio offer.



Yn 2020-21, roedd gan yr heddlu **£658 miliwn** ar gyfer gwasanaethau, roedd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru £211 miliwn ac roedd gan y gwasanaethau tân ac achub £156 miliwn.


Yn fras, mae **11,500** o weithluoedd y gwasanaethau brys yn rhai 'mewn lifrai'.



Mae'r gwasanaethau brys yn cyflogi dros **20,000 o bobl**.



Roedd gwasanaethau brys Cymru'n defnyddio **3,917 o gerbydau** i ddarparu eu gwasanaethau ar ddiwedd mis Mawrth 2020.



Yn 2019-20, fe warion nhw ychydig yn llai nag **£11 miliwn** i gynnal a chadw eu fflyd.

Yn 2019-20, teithiodd y gwasanaethau brys dros **41.6 miliwn** o filltiroedd.

Argymhellion

- 14 Mae ein hargymhellion wedi'u bwriadu i helpu i gynorthwyo'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio i wneud defnydd gwell o adnoddau ond hefyd i barhau i ddiogelu pobl a chymunedau ledled Cymru.

Argymhellion

Yn **Rhan 2** rydym yn nodi, er ei bod yn bwysig bod gwasanaethau brys yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data, bod angen iddynt hefyd rannu data i sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Er nad yw'r ddau beth yma'n nacau ei gilydd, mae ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau diogelu data'n peri i rai swyddogion beidio â rhannu data, hyd yn oed lle ceir cytundeb i ddarparu gwybodaeth ar gyfer partneriaid.

- A1 Rydym yn argymhell bod y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn darparu hyfforddiant diweddarau ar gyfer rheolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant rannu data a pha ddata y gallant ei rannu ac na allant ei rannu.
- A2 Rydym yn argymhell bod y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn adolygu ac yn diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.

Argymhellion

Yn **Rhan 3** rydym yn adolygu cynlluniau ar gyfer cydweithio yn y dyfodol rhwng gwasanaethau brys ac yn nodi cyfleoedd i wella'r modd y caiff prosiectau eu cynllunio a'u rheoli i gynyddu'r budd a'r effaith i ddinasyddion sy'n deillio o gydweithio gwell.

- A3 Rydym yn argymell bod y Bwrdd Cydweithio Strategol yn adolygu cynlluniau ffrydiau gwaith i sicrhau eu bod yn rhai CAMPUS a'u bod yn canolbwyntio ar gyflawni'r deilliannau cywir.
- A4 Rydym yn argymell bod y Bwrdd Cydweithio Strategol yn cyflwyno ac yn darparu adnoddau digonol ar gyfer trefniadau rheoli prosiectau i gyflawni cynlluniau ffrydiau gwaith er mwyn gallu tracio perfformiad yn effeithiol ond hefyd er mwyn gallu adnabod ble y mae gofyn cymryd camau cywirol.

Yn **Rhan 3** rydym yn ystyried sut y mae'r gwasanaethau brys yn mesur ac yn gwerthuso eu gwaith cydweithredol, ond canfuom fod systemau a data a ddefnyddir i farnu effaith a budd heb gael eu sefydlu eto.

- A5 Rydym yn argymell bod y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn cytuno ar linellau sylfaen sy'n dangos hyd a lled y cydweithio ar hyn o bryd a'r gwariant cyfunol ar weithgarwch cydweithredol.
- A6 Rydym yn argymell bod y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn sefydlu targedau ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol i allu dangos yn y dyfodol bod arbedion wedi'u cynllunio a gwelliannau'n cael eu cyflawni.
- A7 Rydym yn argymell bod y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn adrodd ar berfformiad yn erbyn gweithgarwch a gynlluniwyd i ddangos yr arbedion a'r gwelliannau sy'n cael eu cyflawni ac yn trefnu bod yr wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus i ddarparu sicrwydd ar gyfer pobl yng Nghymru ynghylch ei waith.

Argymhellion

Yn **Rhan 3** rydym yn dod i'r casgliad nad yw llawer o'r cydweithio da rhwng gwasanaethau brys yn cael ei hyrwyddo ac yn cael cyhoedduswydd eang ac nad yw'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn amlwg iawn i'r cyhoedd.

A8 Rydym yn argymhell bod y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn cynnal ymgyrch cyhoedduswydd a chodi ymwybyddiaeth i hyrwyddo'i waith blaenorol a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Yn **Rhan 3** rydym yn amlygu ffactorau llwyddiant hollbwysig a gafwyd o adolygiad o gydweithio rhwng gwasanaethau brys ledled Prydain Fawr a all gryfhau dulliau yng Nghymru.

A9 Rydym yn argymhell bod ffrydiau gwaith y Bwrdd Cydweithio Strategol yn defnyddio ein hofferyn hunanfyfyrion i werthuso'u rhaglenni gwaith a nodi ble y mae angen i weithgarwch wella (nodir yr offeryn yn **Atodiad 4**).



**Mae disgwyl i
wasanaethau
brys gydweithio
i wneud defnydd
gwell o adnoddau**

01

- 15 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn nodi disgwyliadau ac argymhellion o adolygiadau diweddar a pholisi'r llywodraeth sy'n hybu cydweithio rhwng gwasanaethau brys. Rydym hefyd yn amlygu graddfa'r cydweithio a'r cyfyngiadau o ran ble y gall cydweithio ac integreiddio ddigwydd.

Nid yw cydweithio ar draws gwasanaethau brys Cymru i wneud y defnydd gorau o adnoddau'n gysniad newydd ac mae'n tyfu o ran ei bwysigrwydd

- 16 Mae'r gwasanaethau brys wedi bod yn cydweithio'n agos i ddarparu gwasanaeth gwell ar gyfer y cyhoedd am flynyddoedd lawer. Mae mentrau partneriaeth arloesol wedi arbed arian, wedi lleihau amseroedd ymateb lleol ac wedi cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd. Yn y bôn, dim ond trwy gydweithio effeithiol wrth gynllunio ar gyfer argyfwng a/neu ymateb iddo y gall gwasanaethau golau glas gyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol.
- 17 Fe wnaeth Adolygiad Knight³ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn 2013 a'r adroddiad yn 2016 gan Weithgor Cydweithio'r Gwasanaethau Brys sy'n cwmpasu'r DU gyfan⁴ ill dau amlinellu llawer o'r gwaith da sydd wedi deillio o gydweithio rhwng y gwasanaethau brys. Er eu bod yn canolbwyntio ar Lloegr yn bennaf, mae llawer o'r canfyddiadau'n berthnasol i Gymru. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd nodi cyfleoedd ar gyfer gwella i gynyddu effeithlonrwydd a gwneud defnydd gwell o adnoddau.
- 18 Mae'r disgwyliad bod gwasanaethau brys yn Lloegr yn cydweithio'n agosach yn rhannol yn adlewyrchu'r ddyletswydd i gydweithio a gyflwynwyd gan Ddeddf Plismona a Throseddau 2017 yn Lloegr. O dan adrannau 1 – 5 y Ddeddf mae'n ofynnol i'r gwasanaethau heddlu, tân ac achub ac ambiwlans gydweithio wrth gyflawni eu swyddogaethau, ac mae hyn wedi ysgogi twf mewn cydweithio rhwng gwasanaethau brys.

3 [Canfyddiadau o'r adolygiad o fesurau effeithlonrwydd a gweithrediadau mewn awdurdodau tân ac achub yn Lloegr](#), Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU, Mai 2013

4 [Trosolwg Cenedlaethol Gweithgor Cydweithio'r Gwasanaethau Brys](#), 2016

- 19 Yn yr un modd, mae Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016⁵ yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn hybu cydweithio rhwng gwasanaethau tân ac achub ac asiantaethau eraill er budd gwella diogelwch. Yn ddiweddarach, ym mis Mawrth 2021⁶ ac ym mis Rhagfyr 2021⁷ fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiadau ysgrifenedig ar ehangu rôl diffoddwyr tân, fel modd i ddefnyddio'r sgiliau a'r galluoedd sydd gan ddiffoddwyr tân yn well i sicrhau deilliannau iechyd gwell ond hefyd i wneud defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Mae gweinidogion wedi nodi'n glir bod arnynt eisiau gweld cydweithio rhwng y gwasanaethau brys yn mynd ymhellach ac yn datblygu'n gyflymach.
- 20 Mae'r adolygiadau a datganiadau hyn a rhai eraill yn y gorffennol wedi nodi nifer o fanteision sy'n deillio o gydweithio cynyddol rhwng gwasanaethau brys, sef:
- gwella cyfathrebu, yr ymateb brys a'r modd yr amserlennir personél, gan gynnwys trefniadau cilyddol ar gyfer cymorth gweithredol, hyfforddiant, darpariaeth frys ac ystafelloedd rheoli;
 - hwyluso arbenigedd o ran sgiliau, gwasanaethau a chryfhau capasiti mewn swyddogaethau cefn swyddfa a chreu cyfleoedd i wneud defnydd gwell o wasanaethau neu offer arbenigol a'u rhannu;
 - cynyddu'r gallu i wario a'r cyfleoedd i wneud arbedion trwy gomisiynu a chaffael nwyddau, gwasanaethau ac offer ar y cyd; a
 - chynorthwyo gydag 'uwchgynllunio' ar gyfer rhanbarth daearyddol ehangach a chyfleoedd i wneud defnydd gwell o asedau cyfredol, gan resymoli canolfannau, cynllunio cydgyfleusterau newydd a moderneiddio systemau cyfathrebu a TGCh.
- 21 Mae'r angen am gydlynu ac integreiddio gwell yn deillio o rai heriau sylfaenol, megis:
- galw cynyddol a ysgogir gan newid demograffig;
 - lluosogi'r 'problemau drwg' lle mae angen i gyrff cyhoeddus weithio ar y cyd i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth;
 - darnio cyfrifoldebau gwasanaethau cyhoeddus gyda thwf cyrff cynllunio a chyflawni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
 - adnoddau ariannol cyfyngedig; a
 - disgwyliadau cynyddol o du'r cyhoedd.

5 [Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016](#), Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015

6 [Datganiad ysgrifenedig ar ehangu rôl diffoddwyr tân](#), Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021.

7 Ar 6 Rhagfyr 2021 fe gyhoeddodd Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru ei adolygiad manwl o [ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru](#) ac fe gyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Bartneriaeth Gymdeithasol [ddatganiad ysgrifenedig ar ehangu rôl diffoddwyr tân](#).

- 22 Daw'r newidiadau hyn â heriau cyffredin yn eu sgîl sydd yn ei dro'n golygu bod angen ymateb cyffredin er mwyn cyflawni deilliannau gwell i bobl a chymunedau ledled Cymru.
- 23 Hefyd, mae deddfwriaeth a gyflwynwyd gan Senedd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau golau glas gydweithio'n well gyda'i gilydd a chyda chyrrff cyhoeddus eraill neu'n eu hannog i wneud hynny i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr sy'n wynebu'r wlad. Er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae deddfwriaeth o'r fath yn pwysleisio rôl allweddol gwasanaethau brys ym mywyd cyhoeddus Cymru a'u cyfraniad hanfodol i ddiwallu angen a chadw pobl yn ddiogel.
- 24 Er bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys Awdurdodau Tân ac Achub fel cyrff cyfrifol, nid yw hyn yn ymestyn i wasanaethau brys eraill. Mae'r heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau'n wahoddedigion statudol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ond nid yw hynny'n wir am Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Yn y cyfamser, nid yw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnwys gwasanaethau tân ac achub o fewn ei chylch gwaith. Er gwaethaf yr anghysonderau hyn, mae'r holl gyrrff yn ymrwymedig i weithio i wireddu uchelgeisiau'r deddfwriaeth.

Mae gan wasanaethau brys gyfrifoldebau ac atebolrwydd gwahanol sy'n dylanwadu ar hyd a lled a chyflymder cydweithio

- 25 Er y gall cydweithio helpu i ddatrys rhai o'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yr 21ain ganrif, nid yw cyflawni manteision o'r fath yn hawdd oherwydd problemau cysylltiedig sicrhau atebolrwydd, rheoli cymhlethdod, ymdopi â galwadau sy'n newid ac anawsterau mesur llwyddiant. Hefyd, er eu bod yn dod dan ymbarél eang 'gwasanaethau golau glas', mae'r gwasanaethau heddlu, ambiwlans a tân ac achub yn ddiwylliannol wahanol ac mae ganddynt fodelau llywodraethu, cyfrifoldebau a ffyrdd o weithio sy'n wahanol.
- 26 O ganlyniad, ni fyddem yn disgwyl gweld cydweithio ar bopeth y mae gwasanaethau 'golau glas' yn ei wneud. Ceir pethau na ddylent gydweithio arnynt yn ogystal â phethau y dylent gydweithio arnynt. Y 'Continwmm Cydweithio' yw'r enw a ddefnyddiwn ar gyfer hyn (**Arddangosyn 2**).

Arddangosyn 2: y 'Continwmm Cydweithio' ar gyfer gwasanaethau brys



Gweithio annibynnol

Gweithio sy'n benodol i gorff nad yw'n cael unrhyw ddylanwad ar na chan bartner arall ymhlith y gwasanaethau brys. Caiff penderfyniadau ynghylch sut i gyflawni'r swyddogaethau hyn eu gwneud gan y sefydliad unigol. Mae enghreifftiau'n cynnwys trosglwyddo cleifion, patrolau plismona ac ymweliadau diogelwch tân yn y cartref.



Gweithio dibynnol

Mae'n cydnabod pwysigrwydd cyfnewid gwybodaeth rhwng y gwasanaethau brys er budd i bob un ohonynt a gweithio mewn ffyrdd i gyflawni pwrpas cyffredin. Er enghraifft, wrth ymateb i wrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llosgi bwriadol.



Cydweithio

Lle mae sefydliadau'n rhannu adnoddau - arian, staff ac adeiladau - i helpu i gryfhau capasiti ac er budd i bob un ohonynt. Er enghraifft, creu ystafelloedd rheoli ar y cyd, gwasanaethau a gydleolir a gweithredu contractau ar y cyd i gynnal a chadw fflyd. Er bod cydweithio'n dod â gwahanol ddisgyblaethau ynghyd, mae ffiniau proffesiynol, adnabyddiaeth broffesiynol ac ymreolaeth broffesiynol yn cael eu cynnal. Mae cydweithio da'n aml yn un o'r rhagamodau angenrheidiol ar gyfer integreiddio.



Integreiddio

Lle mae dau neu fwy na dau wasanaeth brys wedi cael eu cyfuno'n ffurfiol ac yn cydweithio fel rhan o un endid dan un strwythur llywodraethu, rheoli a darparu. O ganlyniad, bydd integreiddio'n golygu bod gwahaniaethau rhwng rolau a chyfrifoldebau'n fwriadol yn dod yn aneglur a bod strwythurau cymorth sefydliadol cyffredin, megis rheoli, taliadau, protocolau, polisiau a chymorth, yn cael eu creu.

- 27 Ceir hefyd rai materion strwythurol sylfaenol sy'n gallu lleihau'r potensial ar gyfer cydweithio. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru'n sefydliad wedi'i gomisiynu a oruchwylir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ymateb yn bennaf i ofynion y GIG yng Nghymru a byrddau iechyd lleol. Gall hyn gyfyngu ar y cwmpas a'r raddfa bosibl ar gyfer cydweithio oherwydd blaenoriaethau a threfniadau ariannu a chomisiynu gwahanol o fewn y gwasanaeth iechyd. Mae gwasanaethau tân ac achub yn atebol i Lywodraeth Cymru ac yn ymateb i'w blaenoriaethau polisi hi. Fodd bynnag, nid yw cyfiawnder troseddol a phlisma wedi'u datganoli, ac mae'r gwasanaethau heddlu'n ymateb i'r agenda a bennir gan y Swyddfa Gartref nad yw wastad yn gyson ag agenda Llywodraeth Cymru.
- 28 Yn ymarferol, gellir dweud y canlynol am y gwasanaethau 'golau glas':
- maent yn gweithredu ar olion traed gwahanol – mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru'n gorff Cymru gyfan, ond mae'r gwasanaethau heddlu a tân ac achub yn gweithio ar olion traed rhanbarthol. Dim ond yng Ngogledd Cymru y mae'r ffin ar gyfer y gwasanaethau heddlu a tân ac achub yr un fath. Er bod gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru hybiau rhanbarthol, nid yw'r rhain yn mapio'n daclus i'r olion traed ar gyfer gwasanaethau heddlu a tân ac achub; ac
 - mae ganddynt fodelau llywodraethu gwahanol – mae pob gwasanaeth heddlu'n atebol i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, mae gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru Fwrdd sy'n cynnwys Cadeirydd, Cyfarwyddwyr Anweithredol, y Prif Weithredwr a phedwar Cyfarwyddwr Gweithredol; ac mae gan y gwasanaethau tân ac achub ill tri Awdurdod sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'u hawdurdodau lleol cyfansoddol.



**Pa mor dda y mae'r
gwasanaethau
brys yn cydweithio
ar hyn o bryd**

02

- 29 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn nodi'n fyr beth yw rôl arweinyddiaeth bwysig y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys sy'n rhoi cyfeiriad ac yn pennu blaenoriaethau ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Rydym yn adolygu sut y mae gwasanaethau brys yng Nghymru'n cydweithio ar hyn o bryd i ddefnyddio'u hadnoddau'n well. Rydym yn crynhoi'r cynnydd hyd yma ac yn amlygu ble y mae cydweithio'n digwydd mewn perthynas â gwneud defnydd gwell o ystadau, fflyd, swyddi ar y cyd, gwasanaethau a gydleolir a rhannu gwybodaeth yn well. Y rhain yw'r eitemau 'gwerthfawr' sy'n cynnig y cyfleoedd mwyaf i wireddu arbedion a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Mae'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer cydweithio, ond nid oes blaenoriaeth o gwbl i symud tuag at wasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n fwy llawn

- 30 Mae'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn dwyn ynghyd yr arweinwyr uchaf eu rheng yn y gwasanaethau brys yng Nghymru. Mae'r Cyd-grŵp yn ystyried eu cyfraniad i argyfyngau sifil posibl, gwaith atal terfysgaeth ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion traws-wasanaeth ehangach sydd o fudd cyffredin iddynt. Mae'r Cyd-grŵp yn cynnwys penderfynwyr allweddol: y pedwar Prif Gwnstabl, y tri Phrif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Yn mynychu fel sylwedyddion mai Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru, uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch arweinwyr milwrol yng Nghymru.
- 31 Mae'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn parhau i fod â rôl allweddol o ran cydlynu ymatebion gwasanaethau brys i'r pandemig, ac mae'r cydweithrediad rhwng aelodau wedi helpu i feithrin perthnasoedd gweithio agosach. Mae pwysigrwydd perthnasoedd cryf rhwng uwch arweinwyr yn amlwg gyda'r llwyddiant hyd yma i ddatblygu syniadau'n ymgyrchoedd o fewn amser byr sydd wedi cael cefnogaeth sefydliadau unigol ac wedi cael effaith arwyddocaol. Gwelwyd hyn yn fwyaf diweddar pan lanswyd cydymgyrch gwybodaeth mewn perthynas â thrais yn erbyn personél y gwasanaethau brys⁸. O fewn deufis i amlygu materion, cafodd yr ymgyrch ei sefydlu a'i gyflwyno i gyd-daro ag ailagor tafarndai yn dilyn llacio'r cyfyngiadau COVID-19 yn flaenorol. Fe wnaeth yr ymgyrch ennyn diddordeb gan bartneriaid yn Lloegr.

8 Ymgyrch 'Gweithiwch gyda ni, nid yn ein herbyn', Erthygl Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Mai 2021.

- 32 Mae aelodau o'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys y siaradom ni gyda hwy hefyd yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth o ran gwneud cydweithio ac integreiddio'n realiti, ac maent hwy o'r farn bod y grŵp yn hanfodol i wireddu'r uchelgeisiau a chyflawni'r disgwyliadau hyn. Gyda hyn mewn cof y mae'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys wedi datblygu Cydgynllun Cydweithio Strategol ac wedi penodi swyddog i gydlynu gwaith argyfyngau sifil posibl a chydweithio'r Cyd-grŵp yn ddiweddar. Mae Rhan 3 o'n hadroddiad yn ystyried gwaith y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys mewn mwy o fanylder.
- 33 Er bod llawer o fanteision i gydweithio rhwng gwasanaethau brys, mae hefyd yn dod â heriau yn ei sgîl, ac ni ellir tanamcangyfrif y rhain. Mae hefyd yn amlwg, er bod ymrwymiad i gryfhau partneriaethau a gwneud mwy o waith cydweithredol, nad yw'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn mynd ar drywydd integreiddio ar yr adeg hon.
- 34 Fe wnaeth staff y cyfwelom ni â hwy o'r gwasanaethau brys yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill amlygu rhai risgiau a allai ddeillio o integreiddio gwasanaethau â chyfrifoldebau gwahanol a gwyro sefydliadau oddi wrth eu diben craidd yn ystod y pandemig. Roedd llawer o staff golau glas y siaradom ni gyda hwy hefyd yn teimlo na fyddai cost mynd ar drywydd integreiddio'n arwain at fanteision ystyrlon o ran arbed arian, nac at wella ansawdd ac ymatebolrwydd gwasanaethau i gyflawni deilliannau gwell i bobl yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaethau Brys yn cydweithio i wneud defnydd gwell o'u hystâd, ond mae graddfa'r cydweithio wedi bod yn gyfyngedig

- 35 Mae rhannu swyddfeydd ac adeiladau yn faes a nodir yn aml fel y man cychwyn ar gyfer cydweithio gwell. Mae'n cynnig mwy o hyblygrwydd i wasanaethau brys o ran eu hystâd, y costau sy'n gysylltiedig â rheoli a rhedeg adeiladau ac o ran trefnu'r modd y darperir gwasanaethau. Mae rhannu swyddfeydd hefyd yn darparu'r cyfle ar gyfer rhwydweithio, cymysgu a dysgu ac mae'n rhoi mynediad gwell i sefydliadau ar bartneriaid allweddol a all helpu i gefnogi eich gwaith. Ceir cyfleoedd gwell i rannu gwybodaeth er mwyn cryfhau cydnerthedd mewn gwasanaethau.

- 36 Ar y cyfan, mae 597 o adeiladau a berchnogir gan y gwasanaethau golau glas yng Nghymru ac 87 o adeiladau eraill gan yr ymatebwyr brys a enwir⁹. O'r adeiladau hyn, mae 541 yn orsafoedd, y mae sefydliad yn cychwyn ohonynt i ymateb i ddigwyddiad. Ar y cyfan, mae ychydig o dan 7% o'r 684 o adeiladau hyn yn cael eu rhannu ar hyn o bryd rhwng dau neu fwy na dau wasanaeth brys a/neu ymatebydd brys (**Arddangosyn 3**). Mae cyfleoedd i wasanaethau ac ymatebwyr brys wneud defnydd gwell o eiddo tirol trwy fwy o gydleoli.

Arddangosyn 3: nifer yr adeiladau a berchnogir, a brydlesir ac a rennir gan wasanaethau brys ac ymatebwyr brys yng Nghymru o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021

Mae'r gwasanaethau brys ac ymatebwyr brys yn rheoli nifer fawr o adeiladau ledled Cymru, ond mae lefel y cydleoeli wedi bod yn gyfyngedig hyd yma

Sefydliad	Nifer yr adeiladau a berchnogir	Nifer yr adeiladau a berchnogir neu a brydlesir gan y sefydliad a enwir sydd ag un neu fwy nag un gwasanaeth neu ymatebydd brys arall yn gweithio ohonynt	Cyfran yr adeiladau a berchnogir sy'n cael eu rhannu
Heddlu Dyfed Powys	53	1	1.9%
Heddlu Gwent	52	1	1.9%
Heddlu Gogledd Cymru	58	6	10.3%
Heddlu De Cymru	103	1	1.0%
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	122	3	2.5%
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	49	8	16.3%

⁹ Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a bydd gan gyrff eraill sy'n gallu ymateb i argyfwng adeiladau y maent yn gweithredu ohonynt. Dyma'r rhai a adnabuwyd fel y rhai sy'n bennaf yn gweithio ar y cyd gyda gwasanaethau golau glas o ran defnyddio ystâd.

Sefydliad	Nifer yr adeiladau a berchnogir	Nifer yr adeiladau a berchnogir neu a brydlesir gan y sefydliad a enwir sydd ag un neu fwy nag un gwasanaeth neu ymatebydd brys arall yn gweithio ohonynt	Cyfran yr adeiladau a berchnogir sy'n cael eu rhannu
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	50	8	16%
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	110	15	13.6%
SCBBA	30	0	0%
Chwilio ac achub	14	2	14.3%
Gwylwyr y Glannau	43	2	4.7%
CYFANSWM	684	47	6.9%

Ffynhonnell: Offeryn data Archwilio Cymru


- 37 Mae llawer o enghreifftiau o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru'n cydleoli mewn gorsafoedd tân gan ddefnyddio'r canolfannau hyn fel y byddent yn defnyddio gorsaf ambiwlansys am eu bod yn cynnig lle i barcio, tanwydd ac ardaloedd i griwiau orffwys. Er enghraifft, yng Ngogledd Cymru mae'r Ymddiriedolaeth yn rhannu gorsafoedd tân yn Wrecsam, Bangor, Llandudno a Cholwyn; ac yn Ne Cymru ym Maesteg, Pontyclun, Caerffili, Y Barri ac amryw leoliadau yng Nghaerdydd. Mae nifer lai o gydleoliadau'n cynnwys y gwasanaeth heddlu, a all fod yn hanfodol bwysig mewn ardaloedd gwledig i gadw presenoldeb lleol. Er enghraifft, mae Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n rhannu adeiladau yn Nhywyn, Nefyn, Glannau Dyfrdwy a Phrestatyn.

- 38 Yn yr un modd, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n rhannu cyfleuster gyda Heddlu Dyfed Powys a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Llandrindod ac mae hefyd yn rhannu cyfleusterau gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru mewn nifer o leoliadau yn Abertawe. Ceir rhai enghreifftiau da hefyd o wasanaethau ac ymatebwyr brys yn rhannu adeiladau. Mae Cyd-orsaf Gwasanaethau Brys Llanilltud Fawr yn cydleoli gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Heddlu De Cymru a Gwarchodwyr Glannau EM.
- 39 Trwy ein hofferyn geo-fapio rydym wedi plotio lleoliad holl adeiladau'r gwasanaethau brys yng Nghymru. Dengys hyn, mewn nifer o leoliadau, fod adeiladau safleoedd y gwasanaethau brys yn agos iawn at ei gilydd. Er enghraifft, ceir 72 o adeiladau gwasanaethau brys o fewn 10 milltir i ganol tref Pontypridd, 51 o fewn 10 milltir i ganol dinas Abertawe, 24 o fewn 10 milltir i Fangor ac 20 o fewn 10 milltir i ganol Wrecsam¹⁰. Mae **Arddangosyn 4** yn darparu ciplun daearyddol o adeiladau'r gwasanaethau brys ledled Cymru.

10 Caiff ein dadansoddiad ei fesur ar sail y pellter byrraf rhwng dau bwynt – 'fel yr hed y frân'.

Arddangosyn 4: adeiladau'r gwasanaethau brys yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021

- Ambiwllans
- Tân
- Heddlu



Ffynhonnell: Offeryn data Archwilio Cymru

- 40 Ni fydd pob safle'n addas ar gyfer cydleoli a dylai safle gorsafoedd wastad fod yn seiliedig ar gynllunio gweithredol a chynllunio ar gyfer risgiau, ond mae angen i gyfleoedd i gydleoli gwasanaethau brys fod yn ganolog i'r ystyriaethau hyn. Hefyd, mae angen ystyried gwerthu adeiladau sydd dros ben i greu cyllid i'w ail-fuddsoddi fel rhan o'r broses benderfynu hon. Rydym ni'n credu bod cyfleoedd amlwg i wneud defnydd gwell o ystâd gyfunol y gwasanaethau brys ac ymatebwyr brys wrth edrych tua'r dyfodol.

Mae gwaith ar y cyd ar fflyd yn gyfyngedig ac mae cyfleoedd i wneud defnydd gwell o adnoddau

- 41 Mae gwasanaethau brys yn gyfrifol am fflydoedd cerbydau enfawr. Wrth i reolwyr fflyd foderneiddio'u fflydoedd, ceir cyfleoedd i gydweithio i rannu adnoddau a lleihau costau. Mae **Arddangosyn 5** yn amlygu bod gwasanaethau brys yn defnyddio 3,917 o gerbydau ar 31 Mawrth 2020 a'u bod, ar y cyd, wedi gwario bron i £11 miliwn ar gynnal a chadw fflyd yn 2019-20¹¹. O'r ffigwr hwn, mae oddeutu 50% o'r gwariant gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, ond nid yw'n amlwg ar unwaith o'n gwaith maes pam eu bod yn gwario symiau sylweddol uwch na gwasanaethau brys eraill.

Arddangosyn 5: costau fflyd, cynnal a chadw a milltiroedd y gwasanaethau brys ar 31 Mawrth 2020

Mae'r gwasanaethau brys yn rheoli nifer fawr o gerbydau ac yn buddsoddi swm sylweddol o arian yn flynyddol mewn cynnal a chadw fflyd.

Sefydliad	Cyfanswm y cerbydau	Cyfanswm cost cynnal a chadw cerbydau (yn flynyddol)	Cost cynnal a chadw flynyddol gyfartalog y cerbyd	Cyfanswm milltiroedd ar ddiwedd y flwyddyn
Heddlu Dyfed Powys	465	£1,352,255	£2,908	5,276,328
Heddlu Gwent	400	£744,405	£1,861	5,695,410
Heddlu Gogledd Cymru	595	£551,750	£927	10,364,506
Heddlu De Cymru	867	£1,625,000	£1,874	10,235,034
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	378	£527,011	£1,394	1,990,779

11 Mae'r modd y mae gwasanaethau brys yn cyfrifo cyfanswm costau cynnal a chadw a milltiroedd cerbydau'n amrywio. Nid yw rhai'n cynnwys cost darnau, gorbenion, costau staffio mewnol ac atgyweirio difrod ar ôl damweiniau (gan bod peth o'r gwaith yn cael ei roi ar gontract allanol). Yn yr un modd, nid yw rhai gwasanaethau brys yn cynnwys rhai cerbydau arbenigol, ac ar rai achlysuron maent yn amcangyfrif milltiroedd oherwydd cyfyngiadau meddalwedd.

Sefydliad	Cyfanswm y cerbydau	Cyfanswm cost cynnal a chadw cerbydau (yn flynyddol)	Cost cynnal a chadw flynyddol gyfartalog y cerbyd	Cyfanswm milltiroedd ar ddiwedd y flwyddyn
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	223	£201,726	£905	1,870,533
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	408	£504,025	£1,235	2,373,689
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	581	£5,482,775	£9,437	3,814,605
Cyfanswm	3,917	£10,988,947	£2,805	41,620,884

Ffynhonnell: Offeryn data Archwilio Cymru.

- 42 Mae cydweithio'n cynnig manteision y tu hwnt i gyflawni effeithlonrwydd ariannol. Er enghraifft, bydd rhannu gwybodaeth a sgiliau gyda phartneriaid yn gwella galluedd a chapasiti, a gall helpu i roi ysgogiad i arloesi ar draws y gwasanaethau brys i sicrhau bod y fflyd yn barod ar gyfer y dyfodol. Mae cydweithio ar gynnal a chadw'n cynyddu darbodion maint ac yn ei gwneud yn bosibl cael mynediad gwell at arbenigwyr a hyfforddiant a chymorth mwy cynhwysfawr. Mae lleihau achosion o ddyblygu rhwng swyddogaethau caffael a chytuno ar fanylebau cyffredin ar gyfer fflyd yn un ffordd o arbed arian a gwella cydnerthedd, yn enwedig o ystyried, y tu allan i fflyd arbenigol megis ambiwlansys ac injans tân, bod gwasanaethau'n defnyddio'r un math o gerbydau i raddau helaeth – ceir a faniau, er enghraifft.
- 43 Hyd yma mae cydweithio rhwng gwasanaethau golau glas mewn perthynas â fflyd wedi bod yn gyfyngedig. Er bod gwaith y cyd-grŵp fflyd rhwng y tri gwasanaeth tân ac achub yn mynd rhagddo'n dda a bod swmp-brynu tanwydd yn dwyn arbedion blynyddol rhwng £70,000 ac £80,000 ar gyfer y pedwar heddlu yn ôl yr amcangyfrifon, mae cyfleoedd o hyd i'r gwasanaethau brys ddatblygu dulliau ar y cyd lle mae caffael, cynnal a chadw, manylebau safonedig, hyfforddiant a phrentisiaethau yn y cwestiwn.

Ychydig o swyddi ar y cyd rhwng y gwasanaethau brys sydd i'w cael, ac nid ydynt yn nodwedd fawr ar ddarparu gwasanaethau

- 44 Gall swyddi a thimau ar y cyd helpu i feithrin diwylliant cydweithredol trwy ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau ar y cyd, meithrin tîm yn rheolaidd a gweithio tuag at nod cyffredin. Gall cydweithio yn y ffordd yma gryfhau llif gwybodaeth rhwng sefydliadau, helpu i wella cyfathrebu a rhannu gwersi a ddysgwyd rhwng y gwasanaethau.
- 45 Ar y cyfan, ceir ychydig dros 20,000 o bersonél gwasanaethau brys yng Nghymru (**Arddangosyn 6**). Yn hytrach na chreu swyddi ar y cyd, mae gwasanaethau brys wedi canolbwyntio ar greu gwasanaethau a gydleolir lle mae timau'n cydweithio o un ganolfan. Er enghraifft, ystafell reoli'r Gyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus gyda staff ar y cyd a weithredir rhwng Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru sydd wedi'i lleoli ym mhencadlys yr heddlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yno, mae gwasanaethau'n cydweithio ond yn cadw annibyniaeth weithredol ac yn atebol i'w priod sefydliadau. Mae cydleoli ar un safle wedi galluogi partneriaid i leihau achosion o ddyblygu wrth ymdrin â galwadau a gwella'r arfer o rannu cudd-wybodaeth.

Arddangosyn 6: gweithlu'r gwasanaethau brys ar 31 Mawrth 2020

Sefydliad	Cwnstabiliaid Arbennig yr Heddlu	Ar alwad	Staff cymorth	Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	Mewn lifrai	Cyfanswm
Heddlu Dyfed Powys	93		724	139	1,182	2,138
Heddlu Gwent	86		706	163	1,362	2,317
Heddlu Gogledd Cymru	156		998	185	1,591	2,930
Heddlu De Cymru	163		2,037	387	3,174	5,761
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru		723	214		386	1,323

Sefydliad	Cwnstabiliaid Arbennig yr Heddlu	Ar alwad	Staff cymorth	Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	Mewn lifrai	Cyfanswm
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru		438	147		297	882
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru		593	325		846	1,764
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru			531		2,743	3,274
Cyfanswm	498	1,754	5,682	874	11,581	20,389

Ffynhonnell: Offeryn data Archwilio Cymru

- 46 Yn yr un modd, mae Heddlu Dyfed Powys wedi creu Uned Cynllunio Gweithredol ac Argyfyngau Sifil Posibl gyda'i bartneriaid allweddol gan gynnwys gwasanaethau brys. Mae'r Uned wedi'i chydleoli gyda thri chydgysylltydd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn y Ganolfan Cydgysylltu Strategol ym mhencadlys yr heddlu yng Nghaerfyrddin. Mae ymatebion eraill o ran staffio ar y cyd yn cynnwys swyddogion heddlu wedi'u secondio i weithio mewn unedau troseddau tân a hyfforddiant ymateb meddygol ar gyfer diffoddwyr tân a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Mae rhywfaint o gydweithio da'n digwydd rhwng gwasanaethau yn yr un maes hefyd. Er enghraifft, cyd-dimau arfau tân yr heddlu, cydwasanaethau fforensig yr heddlu a gweithgarwch gwrthderfysgaeth ar y cyd gan yr heddlu, a chyd-dimau ymchwilio i danau'r gwasanaethau tân ac achub. Hefyd, gwaith ar y cyd ar gyfarpar diogelu personol, lifrai, dylunio fflyd a chaffael.

Mae'r gwasanaethau brys yn rhannu ac yn defnyddio data'n effeithiol i wella amseroedd ymateb a'r defnydd o gerbydau ond nid oes ganddynt ddull effeithiol o reoli pobl agored i niwed

- 47 Mae adweithio i geisiadau am help gan ddinasyddion yn aml yn arwain at ymyriad ar y cyd gan wahanol wasanaethau brys. I sicrhau bod gan ymatebwyr ddealltwriaeth lawn am anghenion a cheisiadau mae'n hanfodol bod gwasanaethau brys yn rhannu data'n briodol ac yn effeithlon. Mae cyfathrebu ystyrlon ac effeithiol rhwng ymatebwyr ac asiantaethau ymatebwyr yn tanategu cydweithio. Mae rhannu gwybodaeth o gymorth gyda dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth, sy'n hanfodol i wneud penderfyniadau da.
- 48 I wneud hyn yn dda mae'n ofynnol bod gan wasanaethau golau glas systemau da i gyfnewid gwybodaeth ddibynadwy a chywir ynglŷn â risgiau a bygythiadau. Dylai'r wybodaeth hon fod heb jargon i osgoi dryswch a chamddehongli, a dylai gael ei hegluro gan ddefnyddio terminoleg sy'n gyffredin i bawb. Mae rhannu data'n effeithiol hefyd yn hanfodol i gefnogi'r defnydd o gerbydau¹² ac i optimeiddio ymatebion i sicrhau bod y bobl gywir a'r sefydliadau cywir yn mynd i ymdrin â digwyddiadau.
- 49 Fe wnaeth llawer o bobl y cyfwelom ni â hwy nodi effaith gadarnhaol y mentrau JIGSO¹³ a Throsglwyddo Digwyddiadau Amlasiantaeth (MAIT). Datrysiaid digidol yw JIGSO sydd wedi'i fwriadu i gynorthwyo'r gymuned cydnerthedd i gynllunio ar gyfer digwyddiad mawr neu argyfwng iechyd y cyhoedd ac ymateb iddo. Gwasanaeth yw MAIT sy'n darparu datrysiaid negeseua rhyngasiantaethol diogel, cadarn sydd fwy neu lai'n ddi-oed ar gyfer gwasanaethau brys. Mae JIGSO a MAIT wedi helpu i leihau amseroedd ymateb gweithredol o fwy na thri munud ar gyfer pob achos brys a lleihau'r risgiau o wallau ac oedi, gan alluogi staff rheng-flaen i ganolbwyntio ar y dasg bresennol, gan arbed amser, cost ac achub bywydau. Mae'r ddwy fenter yn defnyddio data cyfeiriadau a ddarperir gan Geoplace¹⁴ fel y ffynhonnell cyfeiriadau a gydnabyddir fel yr un swyddogol yn y DU.

12 Mae'r gyfradd defnyddio cerbydau'n amlygu capasiti fflyd gwasanaethau brys yn erbyn anghenion logistaidd. Er na fyddwch o bosibl yn cyflawni defnydd cerbyd o 100%, bydd y gyfradd defnyddio cerbyd yn gadael i chi nodi capasiti dros ben y fflyd. Mae defnyddio data o'r fath yn amlygu ble y ceir cyfleoedd i ehangu rolau presennol i'r gwasanaethau brys wneud mwy.

13 'JIGSO', y gair Cymraeg ar gyfer math o bos, yw'r enw a roddwyd i'r fenter hon.

14 Mae Geoplace yn defnyddio cyfeiriad Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN) safonedig i danategu systemau gorchymyn a rheoli ar gyfer gwasanaethau brys yng Nghymru.

- 50 Mae'r trefniadau cyfredol yn welliant mawr ar yr hen ddull lle'r oedd gwahanol ganghennau o fewn y gwasanaethau brys yn mynd ati'n gorfforol i ddeialu 999 i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau gyda gwasanaethau brys eraill ac mae wedi cyfrannu at rannu data a gwybodaeth yn well i helpu i wella amseroedd ymateb. Yng Nghymru, gwneir dros 300,000 o alwadau'r flwyddyn ar draws y tri gwasanaeth brys ac amcangyfrifir y gallai defnyddio MAIT fod yn arbed dros 18,000 awr o amser staff ystafelloedd rheoli'r gwasanaethau brys a dreulir yn ffonio asiantaethau eraill.
- 51 Fe wnaethom hefyd adnabod rhai heriau parhaus. Ystyrir yn aml bod deddfwriaeth diogelu data'n atal sefydliadau rhag ymgymryd â phrosiectau sy'n golygu defnyddio data personol a sensitif, yn enwedig lle mae gofyn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid. Yn bwysicaf oll, mae pryder ynghylch diogelu data'n arwain at amharodrwydd i gymryd risg ac yn rhwystr i arloesi wrth ddefnyddio data, am bod gwasanaethau'n ofni cael eu cosbi. Mae gwrthwynebiad diwylliannol parhaus i rannu gwybodaeth yn dal i fodoli. Ystyrir bod datblygu protocolau ar y cyd i rannu gwybodaeth am bobl agored i niwed yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y dyfodol.



**Sut y mae'r
gwasanaethau brys yn
bwriadu cydweithio
yn y dyfodol**

03

- 52 Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn ystyried cynlluniau'r gwasanaethau brys ar gyfer cydweithio yn y dyfodol trwy Fwrdd Cydweithio Strategol newydd. Mae hefyd yn nodi rhai cyfleoedd i gryfhau'r gwaith hwn, gan gynnwys dysgu gwersi o fentrau cydweithredol yng ngwledydd eraill Prydain Fawr.

Mae'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys wedi sefydlu Bwrdd Cydweithio Strategol i adnabod a chyflawni cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol

- 53 Mae'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys wedi cytuno ar ffocws priodol yn ei gynllun cydweithio strategol i ddatblygu, cynllunio a chydlynu gwaith i gyflawni camau gweithredu i wneud y defnydd gorau o adnoddau trwy gydweithio – **Arddangosyn 7**. I roi anogaeth ar gyfer cydweithio ehangach a dyfnach, mae'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys hefyd wedi creu Bwrdd Cydweithio Strategol, gan roi arwydd clir bod newid sylweddol yn ofynnol i wireddu manteision cydweithio ar draws gwasanaethau yn llawn. Mae'r Bwrdd Cydweithio Strategol, a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2020, yn cynnwys uwch arweinwyr o sefydliadau ar draws y gwasanaethau heddlu, tân ac ambiwlans yng Nghymru.

Arddangosyn 7: amcanion Cynllun Cydweithio Strategol y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys


- Ystyried materion sydd o fudd i bob gwasanaeth a datblygu mentrau ar y cyd sydd, trwy gydweithio, yn gwella'r modd y darperir gwasanaethau ledled Cymru
- Gwella cydweithrediad a chydgyssylltu rhwng gwasanaethau brys
- Manteisio ar gyfleoedd i gydweithio a rhoi cymorth i ddarparu gwasanaethau brys mewn modd gwell
- Datblygu ffyrdd newydd o gydweithio
- Hyrwyddo mentrau cydweithio rhagweithiol i sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru'n cael yr ymateb mwyaf priodol gan y gwasanaethau brys
- Lleihau nifer a difrifoldeb digwyddiadau niweidiol yr adroddir a rnynt rhwng gwasanaethau brys yng Nghymru
- Cyflawni gwerth am arian i drethdalwyr Cymru trwy roi mentrau cydweithredol cost-effeithiol ar waith



- 54 Mae'r Bwrdd Cydweithio Strategol wedi cytuno hefyd ar y tair egwyddor allweddol ar gyfer cydweithio llwyddiannus a fydd yn tanategu'r drefn o flaenoriaethu gweithgareddau yn y dyfodol. Y rhain yw: lleihau risg a niwed i'n cymunedau; galluogi'r broses o wella'r modd y darperir gwasanaethau; a darparu gwerth gwell am arian. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ac wedi'u mapio dan bum ffrwd waith eang (**Arddangosyn 8**). Arweinir pob un o'r pum maes yma – gwasanaethau gweithredol; galluogi cyflawni busnes; digidol; y gweithlu a datblygu sefydliadol; ac atal – gan uwch swyddog o un o'r gwasanaethau brys sy'n bartneriaid.

Arddangosyn 8: ffrydiau gwaith a meysydd blaenoriaeth allweddol y Bwrdd Cydweithio Strategol

Bwrdd Cydweithio Strategol



Ffynhonnell: Y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys, Cyd-gynllun Cydweithio Strategol, Fersiwn 1.0, Gorffennaf 2021

- 55 Mae pum portffolio'r Bwrdd Cydweithio Strategol yn gyson â'r ffordd genedlaethol o feddwl, yn enwedig o ran y dyhead i ehangu rôl diffoddwyr tân ac i'r holl bartneriaid ddatblygu gwasanaethau digidol. Hefyd, mae'r eitemau o wariant 'gwerthfawr' pwysig megis fflyd ac asedau wedi cael eu blaenoriaethu. Y rhain sydd fwyaf tebygol o ddwyn y manteision mwyaf. Hefyd, mae'r pum ffrwd waith yn adeiladu ar arfer cyfredol ac nid ydynt yn bwriadu uno â phwyllgorau a gweithgorau cenedlaethol eraill. Y flaenoriaeth yw defnyddio grwpiau a pherthnasoedd sydd eisoes wedi'u sefydlu ac sy'n gweithio. Bydd rhai ffrydiau gwaith yn parhau i flaenoriaethu gwaith o fewn gwasanaethau, tra bo eraill yn bwriadu cyflawni mentrau cydweithio ar draws y gwasanaethau brys.

Mae cynlluniau ar gyfer cydweithio'n datblygu ond mae rhai o'r rhain yn gyfyngedig o ran eu cwmpas ac nid ydynt yn cael eu hategu gan drefniadau cyson i reoli prosiectau

- 56 Mae pob un o'r pum ffrwd waith wedi bod yn adnabod ac yn cytuno ar feysydd posibl ar gyfer gweithredu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, sydd ynddynt eu hunain yn gallu bod yn addasiadau ar raddfa fach, yn ogystal â newidiadau mwy sylweddol ar draws sefydliadau. Mae peth o'r gweithgarwch hefyd yn adeiladu ar, ac yn ceisio cryfhau, trefniadau cydweithio sydd wedi hen ennill eu plwyf – er enghraifft, y gwaith ar y cyd ar leihau llosgi bwriadol a gwaith atal mewn perthynas â diogelwch y ffyrdd – tra bo eraill yn gyfleoedd cydweithredol cwbl newydd megis contractau ar y cyd i gynnal a chadw cerbydau.

- 57 Mewn egwyddor, mae'r Bwrdd Cydweithio Strategol yn amcanu at gyflawni tri phrosiect dan bob ffrwd waith bob blwyddyn. Er bod pob un o'r ffrydiau gwaith yn mynd rhagddi, a bod rhai wedi gwneud cynnydd da, mae'r rhan fwyaf yn dal i adnabod, mapio a chytuno ar eu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Ym mis Gorffennaf 2021:
- roedd y ffrwd waith Gwasanaethau Gweithredol wedi adnabod testunau posibl ac wedi cytuno ar arweinyddiaeth ar gyfer gwahanol weithgareddau a chamau gweithredu ond nid oedd wedi cytuno ar gynllun gweithgarwch eto na llinell amser i gyflawni yn ei herbyn.
 - o'i gymharu, roedd Galluogi Cyflawni Busnes wedi cytuno ar raglenni drafft gan amlygu meysydd posibl ar gyfer cydweithio mewn perthynas â fflyd, ystadau a chaffael, er nad oes llinellau amser yn eu lle ar gyfer yr holl weithgareddau.
 - roedd y ffrydiau gwaith digidol ac atal yn gwneud gwaith cwmpasu i bennu llinellau sylfaen ac yn cytuno ar waith i gwblhau eu cynlluniau cydweithio ar gyfer y dyfodol.
 - er bod grŵp y gweithlu a datblygu sefydliadol wedi nodi nifer o feysydd posibl ar gyfer cydweithio, roedd pryderon wedi cael eu codi y bydd cynnydd yn gyfyngedig heb neilltuo adnoddau penodol i gefnogi gweithgarwch.
- 58 Mae'r agenda a bennwyd gan y Bwrdd Cydweithio Strategol yn briodol ac yn canolbwyntio ar sicrhau 'cydberthynas', ond mae arni angen cymorth rheoli prosiectau mwy cadarn a chyson ac fe allai fod yn fwy uchelgeisiol mewn rhai meysydd. Er enghraifft, mae peth o'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar ganfod a oes achos dros gydweithio gyda chamau wedi'u disgrifio fel 'mapio gweithgarwch'; 'rhannu gwybodaeth'; 'creu llinell sylfaen'; 'cael cyngor'; 'meincnodi'; 'archwilio cyfleoedd'; 'asesu cymwyseddau'; a 'llunio rhestr'. Mae'r rhain yn darllen fel cynllun i greu cynllun ar gyfer cydweithio, nid cyflawni gwelliant trwy fynd ati i gydweithio.
- 59 O ganlyniad, mae rhai ffrydiau gwaith yn dal i ddewis camau gweithredu posibl ac nid ydynt wedi penderfynu'n derfynol ar eu blaenoriaethau eto. Er bod y math o weithgareddau i'w weld yn gadarn, nid yw wastad yn glir pa ddeiliant yr anelir ato. Mae hyn yn codi cwestiynau pa un a fydd camau gweithredu'n arwain at welliannau ystyrlon, yn enwedig gan nad yw cryn dipyn o'r manylder y mae ei angen i fesur llwyddiant a gwerthuso cynnydd wedi cael ei gytuno eto.

- 60 Er bod y pum ffrwd waith yn canolbwyntio'n fras ar y pethau cywir nid oes ganddynt ddull cyson, y darperir adnoddau ar ei gyfer ac y cytunwyd arno i reoli prosiectau. Mae sefydlu dull cyson, y darperir adnoddau ar ei gyfer, yn hanfodol felly am ei fod:
- yn rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad i brosiectau ac o gymorth i greu cynllun priodol ar gyfer cyflawni mewn perthynas â nodau strategol;
 - yn sicrhau y gosodir disgwyliadau priodol o ran yr hyn y gellir ei gyflawni, erbyn pryd, am faint a'i fod yn sicrhau bod ansawdd beth bynnag sy'n cael ei gyflawni'n taro deuddeg yn gyson;
 - yn sicrhau bod prosesau rheoli prosiect priodol yn cael eu dilyn trwy gydol oes y prosiect ac yn galluogi'r bobl gywir i wneud y pethau cywir, ar yr adeg gywir; ac
 - yn ei gwneud yn bosibl i risgiau gael eu rheoli'n briodol a'u lliniaru i'w hatal rhag dod yn broblemau ac yn rhoi cymorth i dracio cynnydd prosiect ac adrodd arno mewn modd effeithiol.
- 61 Ar hyn o bryd, mae cryn dipyn o'r gwaith cydgysylltu'n cael ei wneud gan gydgysylltydd y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys ond nid yw hyn yn ddigon i gefnogi rhaglen mor eang ac uchelgeisiol. Ar y cyfan, mae capasiti'r ffrydiau gwaith yn gyfyngedig heb unrhyw adnoddau staff wedi'u neilltuo i gefnogi gweithgarwch y Bwrdd Cydweithio Strategol gyda phawb yn gwneud eu 'swydd arferol+'. Hefyd, nid yw rhai mentrau cydweithredol rhyngasiantaethol diweddar pwysig megis y gwasanaethau tân ac achub yn ymateb ar y cyd i argyfyngau meddygol ac unedau ymateb ar y cyd gyda'r heddlu wedi symud ymlaen dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid.
- 62 Heb ddull cyson i reoli prosiectau a sicrhau bod adnoddau digonol yn eu lle, mae uchelgeisiau'r Bwrdd Cydweithio Strategol yn annhebygol o gael eu gwireddu. Mae hyn yn risg fawr i lwyddiant yn y dyfodol.

Nid yw'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys wedi cytuno eto sut y bydd yn barnu'r effaith a'r gwerth am arian sy'n deillio o gydweithio

- 63 Mae sefydlu deilliannau eglur ar gyfer cydweithio'n bwysig i alluogi partneriaid i ddeall effaith a gwerth cydweithio. Fodd bynnag, mae datblygu deilliannau 'system gyfan' yn gymhleth, yn enwedig mewn amgylchedd amlddisgyblaethol. Gall integreiddio deilliannau ac allbynnau gwahanol wasanaethau fod mor gymhleth â chyflawni'r cydweithio ei hun. Ac fe all fod yn anodd gwybod ble i ddechrau heb linell sylfaen glir, neu lle nad yw mesurau penodol yn eu lle yn barod, a hebddynt, mae'n amhosibl gwerthuso pa mor dda yr ydych yn gwneud. Mae'n hanfodol felly bod partneriaid yn adnabod deilliannau ar adeg gynnar yn y broses gydweithio yn hytrach na mynd ati'n ôl-weithredol i'w pennu ar gyfer gweithgareddau neu ymyriadau y cytunwyd arnynt ac a ariannwyd yn barod i sicrhau eu bod yn gallu cynnal gwerthusiad priodol.
- 64 Yn bwysig, mae'r cynllun cydweithio strategol yn cynnwys amcan i gyflawni gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru trwy roi mentrau cydweithredol cost-effeithiol ar waith. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r uchelgais hwn, ychydig o wybodaeth yr adroddir arni ar hyn o bryd i farnu pa un a yw ac a fydd mentrau cydweithredol presennol ac arfaethedig yn y dyfodol rhwng gwasanaethau 'golau glas' yn cyflawni gwerth gwell am arian.
- 65 Er enghraifft, nid oes data sylfaenol sy'n dangos ar y cyd faint mae gwasanaethau'n ei wario ar hyn o bryd; nid oes unrhyw wybodaeth am weithgareddau cydweithredol sy'n amlygu'r arbedion a wnaed hyd yma; ac nid oes targedau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwelliannau y bwriedir eu cyflawni yn y dyfodol. Nid yw mentrau cydweithredol presennol wedi cael eu mapio na'u hasesu o ran eu heffaith eto.
- 66 Hefyd, nid yw llawer o'r cydweithio da rhwng y gwasanaethau brys yn cael ei hyrwyddo a'i gyhoeddi'n eang ac nid yw llawer o'r cydweithio da rhwng gwasanaethau brys yn cael ei hyrwyddo ac yn cael cyhoeddu'rwydd eang ac nad yw'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn amlwg iawn i'r cyhoedd. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli o ystyried gwaith cadarnhaol y Cyd-grŵp dros y 18 mis diwethaf yn llywio'i ffordd trwy'r pandemig.

Mae cyfleoedd i ddysgu o'r hyn sy'n digwydd yng ngwledydd eraill Prydain Fawr

67 Yn genedlaethol, mae'r gwasanaethau brys yn cael budd o fod yn rhan o rwydweithiau seiliedig-ar-wasanaethau sy'n gweithredu ar sail ehangach ac sydd â hanes da o roi anogaeth i gydweithio o fewn y sector. Maent yn cynnwys Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân, Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Heddlu a Chymdeithas y Prif Weithredwyr Gwasanaethau Ambiwylans. Yn ychwanegol at rwydweithiau gwasanaeth-benodol, ceir nifer o fyrddau cydweithio strategol 'golau glas' cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn rhannau eraill o Brydain Fawr.

Mae Strategaeth Gydweithio Genedlaethol Gwasanaethau Brys yr Alban 2018-2023 yn canolbwyntio'n fawr ar integreiddio polisi a gwasanaethau

68 Yn 2014, fe sefydlwyd Grŵp Cydweithio ar Ddiwygio yn yr Alban. Mae'n cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban, Gwasanaeth Heddlu'r Alban a Gwasanaeth Ambiwylans yr Alban. Yn ogystal â chadeiryddion y gwasanaeth tân ac achub a'r gwasanaeth ambiwlans, mae cadeirydd Awdurdod Heddlu'r Alban, y Prif Swyddog Tân, Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwylans yr Alban a Phrif Gwnstabl Police Scotland hefyd yn eistedd ar grŵp llywodraethu ar wahân. Gweledigaeth y Grŵp Cydweithio ar Ddiwygio yw 'cydweithio i wneud yr Alban yn ddiogel ac yn llwyddiannus' ac maent wedi cytuno ar saith maes ar gyfer gweithredu:

- gwella deilliannau ar gyfer pobl;
- trawsnewid trwy ailbennu'r cydbwysedd o ran sut yr ydym yn neilltuo adnoddau i weithgareddau atal;
- gwella sgiliau ein gweithlu;
- gwella sut yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithio gydag eraill;
- mynd ati ymhellach i feithrin a chryfhau cydnerthedd cymunedol;
- manteisio ar dechnoleg newydd wrth ail-ddylunio ein gwasanaethau; a
- datblygu modelau gwasanaethau mwy hyblyg.

- 69 Yn bwysig, ym mis Ionawr 2018 fe gyhoeddodd y Grŵp Strategaeth Gydweithio Genedlaethol Gwasanaethau Brys yr Alban¹⁵. Mae'r strategaeth yn nodi'r weledigaeth, cyfeiriad strategol, amcanion ac egwyddorion gweithio ar y cyd a fydd yn rhoi arweiniad o ran datblygiad parhaus cydweithio ar draws y tri gwasanaeth brys yn yr Alban. Cytunwyd ar weledigaeth ar y cyd, sef 'trwy gydweithio'n fwyfwy agos a thrwy rymuso ein staff a'n cymunedau byddwn yn gwella diogelwch a chydnerthedd cymunedau ac yn gwella lles pobl yr Alban'.
- 70 Mae'r strategaeth yn cynnwys dadansoddiad byr o'r galwadau a osodir ar wasanaethau brys a gwasanaethau cyhoeddus eraill ac yn cyflwyno'r achos pam fod cydweithio'n bwysig. Mae newid demograffig, anghydraddoldeb cymdeithasol, gostyngiadau mewn adnoddau ac ansicrwydd gwleidyddol yn amlygu'r angen am ymateb cadarn i alluogi gwasanaethau brys i barhau i gyflawni eu cyfrifoldebau.
- 71 Mae'r strategaeth yn defnyddio dull cam-wrth-gam rhesymegol sy'n canolbwyntio ar gamau cyflym ymlaen a dewisiadau hawdd sy'n adeiladu tuag at fanteision tymor hwy gan ganolbwyntio ar bedwar maes y rhoddir blaenoriaeth iddynt: cydleoli gwasanaethau; ymateb ar y cyd; integreiddio polisi a data; ac integreiddio a rhannu gwasanaethau. Maent yn canolbwyntio ar y pedwar maes hwn oherwydd 'Mae cydleoli'n ein helpu i ymateb ar y cyd sy'n gallu arwain at rannu gwybodaeth yn well sy'n gallu ein helpu i integreiddio gwasanaethau'. Mae'r Grŵp Cydweithio ar Ddiwygio hefyd yn datblygu Model Gwella Cydweithredol i oleuo gwaith cydweithredol yn y dyfodol ac i gynyddu cyfleoedd, arbedion effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i'r eithaf.

15 Mae'r partneriaid wedi datblygu cynllun ar wahân i wella'r modd y defnyddir data hefyd. Mae hwn o gymorth i gyflawni'r Strategaeth Gydweithio Genedlaethol ar y cyfan.

Mae Grŵp Llywio Gwasanaethau Brys Dyffryn Tafwys yn goruchwyllo rhaglen ac iddi ffocws pendant i rannu adnoddau a gwella galluoedd ar y cyd

- 72 Mae Grŵp Llywio Gwasanaethau Brys Dyffryn Tafwys yn dwyn ynghyd uwch swyddogion o'r gwasanaethau brys. Y prif wahaniaethau gyda'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yng Nghymru yw cynnwys Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyffryn Tafwys ac awdurdodau lleol fel aelodau. Mae swyddog Cymorth Rhaglen, a mecanwaith brysbennu ar gyfer pennu ffocws a lleihau ffrydiau gwaith fel eu bod yn dal i fod yn rhai y gellir eu cyflawni ac yn realistig. Mae Grŵp Llywio Gwasanaethau Brys Dyffryn Tafwys yn darparu arweiniad, her a chyfeiriad ar y cyfan ar gyfer rhoi'r Rhaglen Gydweithio ar waith. Mae'r blaenoriaethau strategol yn canolbwyntio ar y canlynol:
- dadansoddi a lleihau'r galw;
 - galluogi gwasanaethau trwy gaffael ar y cyd;
 - rhannu galluoedd arbenigol;
 - adnabod a chydweithio ar recriwtio a datblygu'r gweithlu; ac
 - integreiddio gweithredol.
- 73 Fe wnaed cynnydd sylweddol gan gynnwys Awdurdod Tân Swydd Buckingham, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Canol De Lloegr a Heddlu Dyffryn Tafwys yn cydleoli mewn 'Hyb' pwrpasol newydd gyda phob un o'r tri gwasanaeth yn gweithredu o un safle. Mae datblygiadau eraill yn cynnwys mynd ati ar y cyd i gaffael injans tân a defnyddio un cyflenwr ar gyfer cyfarpar diogelu personol ar draws y tri gwasanaeth tân ac achub yn y rhanbarth. Mae cofrestr cydweithio ac adroddiad monitro wedi cael eu datblygu ac yn cael eu defnyddio i dracio cynnydd¹⁶.

Mae gwasanaethau brys yn Nwyrain Lloegr yn dechrau mesur yr adenillion ar fuddsoddiad sy'n deillio o fentrau cydweithio

- 74 Fe wnaeth adroddiad gwerthuso ar weithgarwch cydweithredol cyfredol rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Bedford ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Dwyrain Lloegr amcangyfrif cyfanswm adenillion ar fuddsoddiad o £5.09 miliwn mewn gwerth cymdeithasol, neu £7 am bob £1 a fuddsoddwyd¹⁷. Mae hyn yn cynnwys:
- adenillion ar fuddsoddiad a gwerth cymdeithasol o gymorth y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ystod y pandemig trwy secondio diffoddwyr tân i'r Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans o £0.448 miliwn;
 - gwerth cymdeithasol tîm cwmpïadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn 2020-21 o £1.053 miliwn;
 - gwasanaeth achub cleifion cymhleth bariatrig gyda gwerth cymdeithasol ychwanegol i Swydd Bedford o £0.384 miliwn;
 - ymateb ar y cyd gyda gwerth cymdeithasol ychwanegol i Swydd Bedford o £2.244 miliwn; a
 - mae cyflawni mynediad¹⁸ wedi ychwanegu gwerth cymdeithasol i Swydd Bedford o £0.960 miliwn.
- 75 Oherwydd ymdrechion cydweithredol, mae'r gwerthusiad yn amlygu bod COVID-19 wedi cael llai o effaith ar yr Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans ac ers mis Ebrill 2020 mae cymorth y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi galluogi 600 yn ychwanegol o ambiwlansys brys o fod ar gael ac mae mwy na 22,332 o oriau ar gyfer cleifion wedi cael eu darparu. O ganlyniad, yn 2020-21 fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans gyrraedd pob un o'i safonau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau categori 1 lle mae bywyd yn y fantol¹⁹ yn ardal Swydd Bedford am y tro cyntaf ers 2010. Ers hynny mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi'r trydydd perfformiad gorau yn Lloegr o fewn eu targed o 7 munud yn ystod 2020-21.

17 [Gwerthusiad o Gydweithio rhwng BFRS a EEAST 2021](#).

18 Ystyr cyflawni mynediad yw pan fo'r gwasanaeth tân ac achub yn torri i mewn i eiddo lle mae pryder ynghylch bywyd claf mewn safle a bod criwiau ambiwlans neu heddlu'n meddu â mynd i mewn.

19 Yn 2017, fe roddodd NHS England safonau ambiwlans newydd ar waith ledled y wlad. Y rheswm dros hyn oedd er mwyn sicrhau bod y cleifion mwyaf sâl yn cael yr ymateb cyflymaf a bod yr holl gleifion yn cael yr ymateb cywir y tro cyntaf. Cyflwynwyd cyfres o gwestiynau brysbennu ymlaen llaw i adnabod y cleifion hynny yr oedd angen yr ymateb cyflymaf arnynt. Mae pedwar categori o alwad ac mae Categori 1 yn cynnwys galwadau gan bobl ag afiechydon neu anafiadau sy'n golygu bod eu bywyd yn y fantol ac mae gofyn ymateb i'r rhain o fewn 7 munud.

Beth all Cymru ei ddysgu o hyn?

- 76 O'r enghreifftiau yr ydym wedi'u hadolygu mewn rhannau eraill o Brydain Fawr, rydym yn dod i'r casgliad bod cydweithio'n bennaf yn weithredol ei ffocws, yn cael ei flaenoriaethu'n lleol nid yn genedlaethol ac yn aml yn ymateb tactegol i fynd i'r afael â phroblem neu amgylchiad. Mae gweithgarwch hefyd yn aml yn anweladwy i'r cyhoedd. Nid yw gwasanaethau integredig yn gyffredin mewn ardaloedd eraill ac nid ymddengys fod yr un bwrdd cydweithio 'golau glas' wedi datrys cyfrinach cydweithio yn llawn.
- 77 Gan dynnu ar yr enghreifftiau uchod ac eraill – mae **Atodiad 3** yn darparu crynodeb o rai partneriaethau ychwanegol – yn amlwg mae rhai egwyddorion allweddol a all helpu i wneud i gydweithio 'golau glas' weithio. Wrth symud yr agenda hon yn ei blaen yng Nghymru, mae **Arddangosyn 9** yn amlygu rhai ffactorau llwyddiant sy'n debygol o fod yn hollbwysig. Gan adeiladu ar hyn, mae **Atodiad 4** yn darparu rhestr wirio hunanwerthuso.

Arddangosyn 9: gwneud i gydweithio weithio – ffactorau llwyddiant hollbwysig

- Arweinyddiaeth weladwy sy'n blaenoriaethu pwysigrwydd cydweithio.
- Bod yn glir sut y mae cydweithio'n cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at ganlyn arni â gweledigaeth a strategaeth pob asiantaeth.
- Cyd-destunoli'r rhesymau dros newid – sut y mae materion demograffig, cymdeithasol, ariannol a gwleidyddol yn golygu bod angen ymatebion gwahanol gan wasanaethau yn yr 21ain Ganrif.
- Bod yn agored ynglŷn â meysydd lle ceir gwrthdaro posibl ac wynebu'r rhain yn uniongyrchol trwy eu trafod, eu hasesu a'u rheoli mewn modd agored.
- Sefydlu protocolau eglur mewn perthynas ag ymddygiadau, rheoleidd-dra cyfarfodydd, rhannu gwybodaeth a data, cyllid ac atebolrwydd.
- Sefydlu dealltwriaeth gyffredin am gyloch gwaith a chyfyngiadau cydweithio a gwerthfawrogiad o hynny.
- Y gallu i neilltuo amser, egni ac adnoddau (gan gynnwys amser uwch arweinwyr) i gynnal momentwm a gwaith cyflawni.
- Gwerthfawrogi safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a'u cynnwys wrth adnabod ble y gall cydweithio wella'u profiad.
- Hyrwyddo pwysigrwydd a manteision cydweithio ar y 'rheng flaen' a chyfleu/egluro pam ei fod yn bwysig.
- Creu mesurau o lwyddiant sy'n eich galluogi i ddangos effaith a gwerth am arian, a mynd ati'n rheolaidd i werthuso perfformiad yn erbyn y rhain ac adrodd arno.





Atodiadau

- 1 Dulliau ac ymagwedd archwilio
- 2 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac ymateb i drychinebau yng Nghymru
- 3 Enghreifftiau o gydweithio rhwng gwasanaethau ac ymatebwyr brys yng ngwledydd eraill Prydain Fawr
- 4 Nodweddion cadarnhaol gwasanaethau brys sy'n cydweithio'n effeithiol

1 Dulliau ac ymagwedd archwilio

Dulliau

Fe gwblhaom ni ein hadolygiad rhwng mis Mawrth 2020 a mis Hydref 2021 ac fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau i gyflawni'r adolygiad hwn:

- **adolygu dogfennau:** fe wnaethom adolygu dogfennaeth, canllawiau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, ystod o ddeunyddiau ar ymagweddau mewn rhannau eraill o Brydain Fawr ac adroddiadau a gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU;
- **cyfweliadau:** fe gyfwelom ni ag uwch arweinwyr o bob un o'r gwasanaethau brys, swyddogion â chyfrifoldeb am gyflawni mentrau cydweithio yng ngwasanaethau brys Cymru, staff Llywodraeth Cymru a nifer fach o bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau brys yn Lloegr; a
- **dadansoddi data:** fe gynhaliom ni ymarfer casglu a dadansoddi data manwl gan dynnu ar wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys mewn cyfrifon cyhoeddedig a data a ddelir gan bob un o'r gwasanaethau brys. Roedd y data y gofynnwyd amdano'n cynnwys y canlynol:
 - gorsafoedd/canolfannau, ystafelloedd rheoli a lleoliad adeiladau pob sefydliad – roedd yr wybodaeth hon i gyd gennym.
 - gweithlu yn ôl rôl – mewn lifrai a ddim mewn lifrai – roedd yr wybodaeth hon i gyd gennym.
 - gwariant refeniw a chyfalaf – roedd yr wybodaeth hon i gyd gennym.
 - cronfeydd wrth gefn – roedd yr wybodaeth hon i gyd gennym.
 - nifer y cerbydau, milltiroedd blynyddol a gwariant ar gynnal a chadw fflyd – roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon gennym.
 - gwariant ar oramser – roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon gennym.
 - lefelau absenoldeb oherwydd salwch – roedd peth o'r wybodaeth hon gennym.
 - cydnabyddiaeth ariannol y bwrdd – roedd yr wybodaeth hon i gyd gennym.

Dim ond setiau data sy'n gwbl gyflawn neu'n gyflawn gan mwyaf yr ydym wedi'u defnyddio yn ein dadansoddiad ac rydym wedi gwirio dilysrwydd a chywirdeb yr wybodaeth gyda phob corff. Oherwydd y gwahaniaethau hyn mewn data, mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad yn amrywio rhwng blynyddoedd ariannol.

Ymagwedd

Yn dilyn gwaith archwilio lleol blaenorol ar gydweithio rhwng heddluoedd yng Nghymru, fe lansiom ni'r adolygiad hwn gan fwrw golwg ehangach ar yr holl wasanaethau 'golau glas' yng Nghymru ym mis Mawrth 2020. Yn wreiddiol roeddem yn bwriadu gwneud y gwaith hwn fel archwiliad mewn '2 gam':

- Cam 1 – adolygiad desg o adnoddau, cyllidebau, lleoliadau fflydoedd ac asedau, i adnabod o ble a sut y mae gwasanaethau'n cydweithio ar hyn o bryd.
- Cam 2 – cyfleoedd i wella cydnerthedd trwy gydweithio, integreiddio a defnyddio adnoddau'n well.

Fe wnaethom ddiwygio ein cynlluniau i ystyried yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau brys o ran ymdrin ag effaith COVID-19. Fe wnaethom leihau cwmpas ein gwaith maes. Er enghraifft, ni wnaethom fapio'r broses o ran sut y mae pob gwasanaeth brys yn ymateb i alwadau 999 brys, gan gynnwys penderfyniadau ac adfer yng Nghyd-ganolfan Gwasanaethau Brys Pen-y-bont ar Ogwr; ni wnaethom gynnal grwpiau ffocws o weithwyr brys rheng-flaen; ac ni wnaethom adolygu cofrestrau risgiau a threfniadau rheoli risg. Fe wnaethom hefyd gwblhau'r adolygiad fel archwiliad ac iddo un cam yn unig.

2 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac ymateb i drychinebau yng Nghymru

Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, a mesurau anneddfwriaethol sy'n cydfynd â hi, yn darparu un fframwaith ar gyfer amddiffyn sifil yng Nghymru²⁰. Mae Rhan 1 y Ddeddf a rheoliadau a chanllawiau statudol ategol yn sefydlu set glir o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer y rhai sy'n rhan o baratoi ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt ar y lefel leol. Fe wnaethom adrodd ar weithrediad y Ddeddf yn 2012²¹.

Mae'r Ddeddf yn rhannu ymatebwyr lleol yn 2 gategori, gan osod set wahanol o ddyletswyddau ar y naill a'r llall. Y rhai yng Nghategori 1 yw'r sefydliadau sy'n greiddiol i'r ymateb i'r rhan fwyaf o argyfyngau (y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a chyrrff y GIG). Mae'r set lawn o ddyletswyddau amddiffyn sifil yn berthnasol i ymatebwyr Categori 1. Bydd yn ofynnol iddynt:

- asesu'r risg y gallai argyfyngau ddigwydd a defnyddio hyn i oleuo'r gwaith o gynllunio at argyfyngau sifil posibl;
- sefydlu cynlluniau at argyfwng;
- sefydlu trefniadau rheoli parhad busnes;
- sefydlu trefniadau i drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion amddiffyn sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd pe bai argyfwng;
- rhannu gwybodaeth gydag ymatebwyr lleol eraill i wella trefniadau cydgysylltu;
- cydweithredu gydag ymatebwyr lleol eraill i wella trefniadau cydgysylltu ac effeithlonrwydd; a
- rhoi cyngor a chynhorthwy i fusnesau a mudiadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes (awdurdodau lleol yn unig).

²⁰ O dan Adran 41 o [Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 2018](#), cafodd darpariaethau allweddol Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ("y Ddeddf") eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

²¹ [Argyfyngau Sifil yng Nghymru](#), Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhagfyr 2012.

Mae sefydliadau Categori 2 (yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafndiaeth a chyfleustodau) yn 'gyrff sy'n cydweithredu'. Maent yn llai tebygol o fod yn gwbl ganolog i waith cynllunio, ond byddant yn chwarae rhan fawr mewn digwyddiadau sy'n effeithio ar eu sector hwy eu hunain. Mae gan ymatebwyr Categori 2 set lai o ddyletswyddau – cydweithredu a rhannu gwybodaeth berthnasol gydag ymatebwyr Categori 1 a 2 eraill. Daw sefydliadau Categori 1 a 2 ynghyd i ffurfio 'fforymau lleol Cymru gydnerth' (yn seiliedig ar ardaloedd heddlu) sy'n helpu trefniadau cydgysylltu a chydweithredu rhwng ymatebwyr ar y lefel leol.

Mae gwasanaethau brys yng Nghymru wedi bod yn arwain o ran cadw pobl ac eiddo'n ddiogel mewn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau. Er enghraifft, stormydd a llifogydd difrifol yn ogystal â damweiniau trafndiaeth, terfysgoedd, gwrthdystiadau sifil, tanau enfawr a llygredd olew.

3 Enghreifftiau o gydweithio rhwng gwasanaethau ac ymatebwyr brys yng ngwledydd eraill Prydain Fawr

Mae cydweithio rhwng gwasanaethau brys yn tyfu mewn pwysigrwydd ledled Prydain Fawr ac mae ymagweddau niferus yn eu lle neu'n cael eu datblygu. I gael rhagor o wybodaeth am waith y Grŵp Cydweithio ar Ddiwygio yn yr Alban, Grŵp Llywio Cydweithio Dyffryn Tafwys a Bwrdd Strategol Cydweithio Golau Glas Swydd Bedford gweler paragraffau 67 i 75 ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Cydweithio	Aelodaeth Ehangach	Fframwaith rheoli perfformiad yn ei le	Gwerthusiad o drefniadau cydweithio presennol	Rhaglen waith wedi'i blaenoriaethu	Strategaethau ac ymagweddau ychwanegol ac ar wahân rhwng y Tri Gwasanaeth wedi'u datblygu
Grŵp Cydweithio ar Ddiwygio'r Alban	Amh.	Oes	Nac oes	Ydy	Data
Grŵp Llywio Cydweithio Dyffryn Tafwys	Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cynghorau Sir Fforwm Cydnerthedd Lleol Partneriaeth Economaidd Leol GCC y GIG	Oes	Nac oes	Ydy	Ystadau Fflyd Caffael Hybiau Gwasanaethau Brys Rotas gweithredol Prentisiaid

Cydweithio	Aelodaeth Ehangach	Fframwaith rheoli perfformiad yn ei le	Gwerthusiad o drefniadau cydweithio presennol	Rhaglen waith wedi'i blaenoriaethu	Strategaethau ac ymagweddau ychwanegol ac ar wahân rhwng y Tri Gwasanaeth wedi'u datblygu
Bwrdd Strategol Cydweithio Golau Glas Swydd Bedford	Comisiynydd Heddlu a Throseddu Fforwm Cydnerthedd Lleol	Oes	Oes	Ydy	Ystadau Fflyd Caffael Gweithdai
Grŵp Cydweithio Gwasanaethau Brys y De Orllewin	Cyngor Cernyw Fforwm Cydnerthedd Lleol	Oes	Oes	Ydy	Gweithrediadau Arbenigol Tri Heddlu Storio a Rheoli Digidol Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP)
Cyd-fwrdd Cynghori ar Gydweithio Golau Glas Swydd Warwick	Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cyngor Sir	Oes	Nac oes	Ydy	Ymchwilio i safleoedd troseddau tân Rheoli'r Galw mewn Amser Real

Cydweithio	Aelodaeth Ehangach	Fframwaith rheoli perfformiad yn ei le	Gwerthusiad o drefniadau cydweithio presennol	Rhaglen waith wedi'i blaenoriaethu	Strategaethau ac ymagweddau ychwanegol ac ar wahân rhwng y Tri Gwasanaeth wedi'u datblygu
Swydd Gaer	Ambiwlans awyr	Oes	Nac oes	Nac ydy	<p>Elfennau proffesiynol Datblygu Pobl</p> <p>Cyfleusterau ac Ystadau</p> <p>Gwella Newid Strategol</p> <p>Gwasanaethau Cludo</p> <p>Gwasanaethau Cyfreithiol</p> <p>Gwasanaethau Argraffu</p> <p>Cyfathrebu Corfforaethol</p>
Bwrdd Arweinwyr Gweithredol Golau Glas Cymbria	Cyngor Sir Achub Mynydd	Oes	Nac oes	Ydy	<p>Rhannu data</p> <p>Lefel Dosbarth Strategaeth Hybiau Ffocws Lleol</p> <p>Canolfan Gorchymyn a Rheoli ar y Cyd</p> <p>Strategaeth gweithio'n symudol</p>

Cydweithio	Aelodaeth Ehangach	Fframwaith rheoli perfformiad yn ei le	Gwerthusiad o drefniadau cydweithio presennol	Rhaglen waith wedi'i blaenoriaethu	Strategaethau ac ymagweddau ychwanegol ac ar wahân rhwng y Tri Gwasanaeth wedi'u datblygu
Bwrdd Strategol Swydd Essex	Cyngor Thurrock Cyngor Southend on Sea	Oes	Oes	Oes	Ystadau Fflyd Caffael Strategaeth Ffyrdd Safer Essex Roads
Bwrdd Cydweithio Golau Glas Glannau Mersi	Fforwm Cydnerthedd Lleol Cyngor Dinas Lerpwl	Oes	Nac oes	Ydy	Hyfforddiant ar y cyd ar gyfer comanderiaid a goruchwylwyr ystafell reoli Proses gyffredin ar gyfer ôl-drafodaeth

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Rydym wedi datblygu'r rhestr wirio hunanasesu hon gan dynnu ar ein hadolygiad o gydweithio rhwng gwasanaethau brys ledled Prydain Fawr.

4 Nodweddion cadarnhaol gwasanaethau brys sy'n cydweithio'n effeithiol

Rydym wedi argymhell ei bod yn cael ei defnyddio gan y gwasanaethau brys yng Nghymru i werthuso a chryfhau eu rhaglenni gwaith cydweithredol.

Nodwedd	Wastad	Weithiau	Byth
Mae gennym arweinyddiaeth weladwy sy'n blaenoriaethu pwysigrwydd cydweithio			
Rwy'n ymddiried mewn eraill yn y fenter gydweithio, ac mae eraill yn ymddiried ynof fi			
Mae'n glir i ni sut y mae cydweithio'n cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at ganlyn arni â gweledigaeth a strategaeth pob asiantaeth			
Rydym yn gwybod pam ac yn gallu cydestunoli'r rhesymau dros newid – sut y mae materion demograffig, cymdeithasol, ariannol a gwleidyddol yn golygu bod angen ymatebion gwahanol gan wasanaethau yn yr 21 ^{ain} ganrif			
Rydym yn agored ynglŷn â'r potensial ar gyfer gwrthdaro ac yn wynebu'r rhain yn uniongyrchol trwy eu trafod, eu hasesu a'u rheoli mewn modd agored			
Rydym yn gwybod pwy fydd yn dal y partneriaid gyda'i gilydd yn ystod cyfnod anodd			
Mae unigolion yn cymryd camau penodol i symud y cydweithio yn ei flaen			
Mae'r materion mwyaf anodd yn cael sylw			
Mae gennym brotocolau eglur ac effeithiol mewn perthynas ag ymddygiadau, rheoleidd-dra cyfarfodydd, rhannu gwybodaeth a data, cyllid, ac atebolrwydd			
Mae'r cyfrifoldeb am gydgyssylltu'r broses gydweithio'n eglur ac mae partneriaid yn ymrwymedig i rannu cyfrifoldeb am y cydweithio			

Nodwedd	Wastad	Weithiau	Byth
Mae gennym ddealltwriaeth gyffredin am gylch gwaith a chyfyngiadau cydweithio a gwerthfawrogiad o hynny			
Rydym yn gallu neilltuo amser, egni ac adnoddau (gan gynnwys amser uwch arweinwyr) i gynnal momentwm a'r broses gyflawni o ran ein gwaith cydweithredol			
Rydw i a'm sefydliad yn barod i greu a chynnal capasiti, ac mae'r holl bartneriaid eraill yn ymrwymedig i wneud yr un modd			
Rydym yn gwerthfawrogi safbwynt defnyddwyr gwasanaethau ac yn eu cynnwys wrth adnabod ble y gall cydweithio wella'u profiad			
Rydym yn hyrwyddo pwysigrwydd a manteision cydweithio ar y 'rheng flaen' ac yn cyfleu ac yn egluro pam fod hyn yn bwysig			
Mae gennym fesurau o lwyddiant sy'n ein galluogi i ddangos effaith a gwerth am arian, ac rydym yn mynd ati'n rheolaidd i werthuso ein perfformiad yn erbyn y rhain ac adrodd arno			

Ffynhonnell: Archwilio Cymru



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru